------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 193(v6)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel swyddog cyfreithiol)

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Prentisiaethau: Buddsoddi Mewn Sgiliau ar gyfer y Dyfodol - gohiriwyd tan 12 Mawrth

(0 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoli'r Risg o Lifogydd ac Erydu Arfordirol – gohiriwyd tan 12 Mawrth

(0 munud)

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth)

(15 munud)

**NDM6979** – Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai'r darpariaethau yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth), sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Lles Anifeiliaid, i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

https://services.parliament.uk/bills/2017-19/animalwelfareserviceanimals.html

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2018-19

(30 munud)

**NDM6964** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2019.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

i. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ii. yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

iii. cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

iv. cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

v. cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

vi. manylion am unrhyw newidiadau i’r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

## Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu i’r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried

**NNDM6984** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i ddadl ar NNDM6985 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 5 Mawrth.

## 9 Dadl ar NNDM6985 - Trafodaethau ar Ymadael â'r UE

(90 munud)

**NNDM6985** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ailadrodd ei wrthwynebiad i'r cytundeb niweidiol ar gyfer ymadael â'r UE y cytunwyd arno gan Lywodraeth y DU.

2. Yn cytuno y byddai canlyniad o ddim-cytundeb yn dilyn y negodiadau presennol ar ymadael â'r UE yn hollol annerbyniol ar 29 Mawrth 2019 neu ar unrhyw adeg.

3. Yn galw felly ar Lywodraeth y DU i gymryd camau ar unwaith i atal y DU rhag ymadael â'r UE heb gytundeb ac yn cytuno y dylai proses Erthygl 50 gael ei hestyn fel bod modd dod i gytundeb ar y ffordd orau ymlaen er mwyn diogelu buddiannau Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig gyfan.

**Cyd-gyflwynwyr:**
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn dwyn i gof fod Llywodraeth y DU, cyn y refferendwm ym mis Mehefin 2016, wedi anfon llyfryn at bob aelwyd yn y Deyrnas Unedig, yn datgan, o dan y pennawd 'Penderfyniad Unwaith Mewn Cenhedlaeth', 'Cred y Llywodraeth mai pleidleisio dros aros yn yr Undeb Ewropeaidd yw'r penderfyniad gorau i'r D.U.', ond hefyd, 'Chi sydd i benderfynu. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu ar eich penderfyniad.'.

2. Yn credu mai modd drefnus o adael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019 fyddai orau, ond yn penderfynu, os na ellir cael cytundeb rhwng y Deyras Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, na ddylid ymestyn proses Erthygl 50, gan y byddai hyn yn parhau'r ansicrwydd ac yn bradychu ewyllys ddemocrataidd pobl Cymru a'r Deyrnas Unedig, a bleidleisiodd yn bendant dros adael yr UE.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i dderbyn y tebygolrwydd y byddwn yn gadael yr UE ar delerau Sefydliad Masnach y Byd ar 29 Mawrth 2019, a chanolbwyntio ein holl ymdrechion erbyn hyn ar baratoi ar gyfer y canlyniad hwn.

Pam mae'r Llywodraeth o'r farn mai pleidleisio dros aros yn yr Undeb Ewropeaidd yw'r penderfyniad gorau i'r D.U. – gyda chyfeiriadau – Swyddfa'r Cabinet – Ebrill 2016

**Gwelliant 2** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai'r ffordd orau ymlaen yw cynnal pleidlais y bobl, er mwyn galluogi dewis democrataidd rhwng cytundeb y Prif Weinidog ar gyfer ymadael â'r UE ac aros yn yr UE , ac yn galw ar Lywodraeth y DU i amlinellu ei chynlluniau i gynnal pleidlais o'r fath ar unwaith.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 6 Mawrth 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28/02/2019 i'w hateb ar 05/03/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Sian Gwenllian** *Arfon*

1 OAQ53524

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau pryd, ar ôl 1 Mawrth 2018, y diddymwyd y penderfyniad i gadw gwasanaethau fascwlaidd brys yn Ysbyty Gwynedd?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ53508

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y canlyniadau i Gymru pe bai Llywodraeth y DU yn tynnu'n ôl o fuddsoddiad arfaethedig yn seilwaith Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

3 OAQ53521

**(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso gwaith tasglu'r cymoedd yng Nghaerffili?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OAQ53504

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog nodi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ieuenctid?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

5 OAQ53532

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau bysiau yn ne-ddwyrain Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OAQ53499

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid addysgol?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

7 OAQ53529

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i roi i'r angen am bleidlais y bobl ar y cytundeb i ymadael â'r UE?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

8 OAQ53492

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu cynlluniau datblygu lleol yng Nghanol De Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

9 OAQ53511

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc?

**David Rees** *Aberafan*

10 OAQ53528

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gefnogi twristiaeth yn Aberafan?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OAQ53493

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y defnydd o losgi fel rhan o reoli gwastraff?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

12 OAQ53514

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr adolygiad o wariant sydd ar y gweill?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

13 OAQ53527

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu busnesau bach?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

14 OAQ53506

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y gronfa ffyniant gyffredin arfaethedig?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**15** OAQ53487

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes yn y sector gwyliau?

# Cwnsler Cyffredinol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OAQ53490

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y farnwriaeth yn llwyr ymwybodol o'r gwahaniaethau cynyddol rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**2** OAQ53497

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am hygyrchedd deddfwriaeth ddatganoledig i'r cyhoedd?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**3** OAQ53481

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**4** OAQ53498

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am y camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau gwrandawiad teg a chyfiawn mewn ymchwiliadau cynllunio?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**5** OAQ53479

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r graddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth?